Y GYMRAEG: MAE GEN TI FANTAIS

Wyt ti'n ystyried mynd i'r Coleg?

Beth am astudio'n ddwyieithog?

Mae arolygon cyflogwyr yn dangos bod prinder sgiliau Cymraeg yn enwedig ym meysydd Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.

> "Mae'n hanfodol bod gennym aelodau o staff yn gweithio i ni sydd â'r gallu i gyfathrebu drwy'r Gymraeg i safon uchel fel ein bod yn gallu sicrhau gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n cwsmeriaid."
> Alun Shurmer, Dŵr Cymru.

Mae ymchwil a wnaed i systemau addysg ddwyieithog yng Nghanada, UDA, y Ffindir a Chymru yn dangos bod pobl sydd yn gallu siarad dwy iaith yn gwneud yn well yn eu hastudiaethau ac yn derbyn canlyniadau gwell wrth sefyll arholiadau a phrofion.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYFRI'R MANTEISION

1. Mae pobl sy'n derbyn addysg ddwyieithog yn gwneud gystal, os nad gwell, yn Saesneg â phobl sy'n derbyn addysg yn Saesneg yn unig.

2. Mae cyflogwyr yn gofyn fwyfwy am sgiliau dwyieithog wrth recriwtio.

3. Mae gallu siarad mwy nag un iaith yn datblygu sgiliau cyfathrebu cadarn.

4. Mae pobl sy'n derbyn addysg ddwyieithog yn perfformio'n well ar gyfartaledd mewn arholiadau a phrofion.

Felly beth am i ti ddatblygu a gwneud y mwyaf o dy sgiliau dwyieithog yn y Coleg?

Y GYMRAEG: MAE GEN TI FANTAIS!

@dyddyfodoldi
colegcymraeg.ac.uk

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
CYMRAEG
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government